# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

## City & Guilds Diploma mewn Goginio Proffesiynol Lefel 2



**Yn gryno**

Byddwch yn gweithio yng ngheginau a bwytai'r coleg ac yn cael eich hyfforddi at safon diwydiant, yn paratoi prydau ac yn gweini ar y cyhoedd yn ddyddiol

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Rydych eisiau gwella eich gwybodaeth am goginio proffesiynol

... Rydych eisiau gweithio mewn amgylchedd prysur a heriol

... Rydych eisiau dechrau gyrfa fel pen-cogydd

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Mae'r diwydiant lletygarwch ac arlwyo yn ddewis gyrfa heriol, ond hynod gwerth chweil, sy'n tyfu'n gyflym.

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Byddwch yn gweithio yng ngheginau a bwytai'r coleg ac yn cael eich hyfforddi at safon diwydiant, yn paratoi prydau ac yn gweini ar y cyhoedd yn ddyddiol. Mae ein tiwtoriaid i gyd yn gymwys ac yn brofiadol tu hwnt yn eu maes, a byddant yn cynnig y sgiliau sydd eu hangen arnoch chi er mwyn datblygu i'r cwrs Coginio Proffesiynol Lefel 3.

Mae'r cwrs hwn yn addas i chi os ydych eisiau gweithio fel pen-cogydd proffesiynol. Byddwch yn datblygu ystod eang o sgiliau gwasanaeth bwyty a choginio o safon uchel.

Byddwch yn astudio:

Iechyd a Diogelwch
Technegau coginio modern
Stociau, cawliau a sawsiau
Ffrwythau a llysiau
Cigoedd ac offal
Dofednod
Pysgod a physgod cregyn
Reis, pasta, grawn a phrydau wyau
Melysfwyd a phwdinau poeth ac oer a chynnyrch wedi eu pobi
Gwasanaeth bwyty - gwasanaeth bwyd, diod a bar, gan gynnwys sgiliau flambé a gwneud coctels
Sgilau barista coffi

Byddwch yn dysgu drwy:

Sesiynau 'byw' ym mwyty a chegin y coleg, yn paratoi, coginio a gweini ar gyfer y cyhoedd
Sesiynau ymarferol i feithrin sgiliau ar gyfer y gegin a'r bwyty
Gwaith theori mewn ardal ystafell astudio

Mae Campws Crosskeys hefyd yn cynnig Tystysgrif Lefel 1 mewn Sgiliau Gwasanaeth Bwyd a Diod Proffesiynol fel cymhwyster ychwanegol a byddwch hefyd yn cael profiad o weithio mewn amgylchedd gwaith realistig yng nghegin a bwyty'r campws, lle byddwch un ai'n coginio neu yn gweini ar gyfer y cyhoedd.

Bydd y cwrs hwn yn adeiladu ar eich sgiliau gwasanaeth bwyty a choginio o Lefel 1 ac yn rhoi'r cyfle ichi gymryd rhan mewn llu o weithgareddau, gan gynnwys:

Cystadlaethau gwasanaeth bwyty a chelfyddydau coginio - Cystadleuaeth Sgiliau Cymru a Sgiliau'r Byd
Cystadlaethau coginio mewnol
Cystadlaethau coginio cenedlaethol eraill

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Ymweld â chynhyrchwyr bwyd lleol
Teithiau i sioeau bwyd

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau ymarferol ac ysgrifenedig, portffolios, cyflwyniadau ac arddangosiadau, a byddwch yn ennill:

Coginio Proffesiynol Lefel 2
Rhaglen Sgiliau Cyfoethogi Creadigol
Sgiliau Gwasanaeth Bwyd a Diod Proffesiynol Lefel 1

Gweithgareddau Sgiliau

Mathemateg a Saesneg
Cymwysterau perthnasol eraill i gyfoethogi eich set sgiliau

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

Lleiafswm o 4 TGAU gradd D neu'n uwch, gan gynnwys naill ai Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf; neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol mewn maes galwedigaethol perthnasol gan gynnwys gradd TGAU mewn Mathemateg/Rhifedd neu Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf.

Mae cymhwyster Lefel 1 mewn Coginio Proffesiynol a/neu brofiad o weithio mewn cegin broffesiynol yn rhagofyniad ar gyfer y cwrs hwn.

Bydd angen i chi fod yn hunan-gymhellol, yn frwdfrydig, yn weithgar ac yn gallu gweithio mewn tîm. Bydd gennych bersonoliaeth gyfeillgar a bydd gofyn i chi fynychu lleoliad gwaith bob wythnos.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Diploma Lefel 3 mewn Coginio Proffesiynol Uwch neu Brentisiaeth, neu gyflogaeth fel pen-cogydd yn y diwydiant arlwyaeth a lletygarwch.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Bydd gofyn ichi brynu offer llawn, gwisg cogydd a gwisg y bwyty a fydd yn costio tua £230.00, a bydd angen £50.00 ar gyfer manion.